



Diweddariad asesiadau'r haf

27^{ain} o Fai

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Yr wythnos hon, rydym wedi derbyn y wybodaeth derfynol gan Gymwysterau Cymru a CBAC ynglŷn ag apelio. Golyga hyn fy mod bellach mewn sefyllfa i rannu'r trefniadau terfynol cyn y bydd graddau CBAC TGAU BTEC a Lefel A yn cael eu cyhoeddi ym mis Awst.

Graddio ac apeliadau

Mae athrawon wedi hysbysu'r myfyrwyr o'r asesiad a thystiolaeth arall a fydd yn cael ei ddefnyddio i bennu eu gradd ym mhob pwnc. Mae'r myfyrwyr wedi bod yn gweithio'n eithriadol o galed ar yr asesiadau hyn i gyflawni eu gradd orau bosib.

A gaf i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch plentyn am eich holl gefnogaeth a'ch gwaith caled yn ystod yr amser hwn.

Mae ysgolion a cholegau led led Cymru wedi defnyddio trefniadau sicrhau ansawdd mewnol ac mae CBAC wedi sicrhau trefniadau sicrhau ansawdd allanol ar gyfer yr haf 2021. Fodd bynnag, gall gwallau ddigwydd weithiau. Felly unwaith y bydd eich plentyn wedi derbyn Graddau a Bennwyd gan y Ganolfan (GBG), maent yn cael cyfle i ofyn i'r ysgol ddarparu Cofnod Gwneud Penderfyniadau Dysgwyr (CGPD) ar gyfer pynciau lle y maent yn credu y gall fod gwall wedi ei wneud. Mae'r CGPD yn darparu rhesymeg yr athro ar gyfer y radd a ddyfarnwyd. Ar ôl darllen y rhesymeg, os yw eich plentyn yn dal i gredu mewn gwirionedd bod gwall wedi'i wneud sydd wedi cael effaith sylweddol ar gywirdeb eu GBG, **gallant ofyn i'r ysgol adolygu'r radd**. Rhaid i bob cais am adolygiad canolfan ddefnyddio Ffurflen Cais Adolygiad Canolfan ac Apeliadau Canolfan CBAC a ddarperir pan fydd y canlyniadau yn cael eu rhyddhau. Ni all dysgwyr drafod pa dystiolaeth a gaiff ei gynnwys yn yr ystod o dystiolaeth a ddefnyddir i bennu eu graddau.

Os byddant yn gofyn am adolygu eu gradd, rhaid i'ch plentyn ddarparu caniatâd ysgrifenedig oherwydd **gall y radd ostwng** o ganlyniad i'r adolygiad.

Lle bo hynny'n berthnasol, unwaith y mae adolygiad canolfan wedi'i gwblhau, byddwn yn rhannu'r canlyniad a'ch plentyn ac yn cyflwyno'r Graddau a Bennwyd gan y Ganolfan i CBAC. Mae'r graddau hyn yn dal i fod dros dro ar hyn o bryd gan y bydd angen i CBAC gynnal rhai gwiriadau ychwanegol gyda'r ysgol.

Fel erioed, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni yma yn yr ysgol os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Diolch,

Mr Dewi Owen

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyl /
Assistant Headteachers

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux



Llinell Amser

Dyddiad	Digwyddiad
Mai 31 ^{ain} Mehefin 4 ^{ydd}	GWYLIAU HANNER TYMOR
Mehefin 7 ^{fed} June	Diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd (dim ysgol i ddisgyblion)
Mehefin 23 ^{ain}	Rhyddhau Graddau a Bennwyd gan y Ganolfan i'r holl ddysgwyr
Mehefin 25 ^{ain}	Mae gan Fyfyrrwyr 48 awr ar ôl rhyddhau eu graddau dros dro i roi cais am eu Cofnod Gwneud Penderfyniadau Dysgwyr ar gyfer unrhyw bwnc y gallent fod eisiau apelio - Felly'r dyddiad cau ar gyfer rhoi cais am CGPD yw Dydd Gwener Mehefin 25^{ain} am 3.30yp.
Gorffennaf 2 ^{il}	Dyma'r dyddiad y mae'r ysgol yn hysbysu CBAC o'r holl raddau a benodwyd gan y ganolfan.
Gorffennaf 20 ^{fed}	Os yw eich plentyn wedi gofyn am adolygiad sy'n arwain at newid gradd, rhaid i ni hysbysu CBAC o'r newid gradd erbyn Gorffennaf 20 ^{fed} i sicrhau y gellir newid y radd cyn diwrnod y canlyniadau.
Awst 10 ^{fed}	Diwrnod Canlyniadau AS/A2
Awst 12 ^{fed}	Diwrnod Canlyniadau TGAU/BTEC

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tim Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyl / Assistant Headteachers

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux